



Gorffennol Digidol Digital Past - 2020

HYD DRAGWYDDOLDEB ODDI YMA?

Adeiladu gallu digidol yn y sector archifau

Jo Pugh, Rheolwr Datblygu Digidol, [Archifau Cenedlaethol Lloegr](#)

Mae archifdai'n ei chael hi'n anodd derbynodi, diogelu a sicrhau mynediad i'r nifer cynyddol o gofnodion digidol a dderbyniant heddiw. Mae llawer ohonynt yn storio cofnodion ar gyfryngau bregus nad oes ganddynt yr adnoddau i'w trosglwyddo, a bach yw'r nifer sydd wedi datblygu sianeli dibynadwy ar gyfer trosglwyddo gwybodaeth ddigidol o'u rhiant-sefydliadau. Darganfuwyd, yn sgil arolwg 2019 a gynhaliwyd ar y cyd â Jisc, fod diffyg ymrwymiad gan uwch-reolwyr i waith digidol yn ogystal â phrinder sgiliau. Rhaid i archifdai dderbyn gwaith digidol fel rhan greiddiol o arfer archifol a rhaid i archifyddion barhau i ddatblygu eu sgiliau i sicrhau y gallant barhau â'u swyddogaethau mwyaf allweddol mewn oes ddigidol. Byddai gwneud fel arall yn rhoi'r cofnod mewn perygl, ac felly dyma'r her bwysicaf sy'n wynebu'r sector archifau heddiw.

Mae rhai sgiliau digidol yn dechnegol (cynhyrchu prawfswm, cyrchu data o API) ond nid yw hyn yn wir am lawer o'r sgiliau mwyaf allweddol: penderfynu rhwng gwahanol werthwyr meddalwedd, ysgrifennu strategaeth ddigidol, ffurfio perthynas adeiladol â chydweithwyr TG. Rhaid i archifdai helpu eu staff (fel cyfangorff) i feithrin rhychwant llawn o sgiliau digidol. Mae'r Archifau Cenedlaethol yn cefnogi'r broses hon drwy ddatblygu arweiniad ar-lein ('Novice to Ninja'), sesiynau a addysgir ('Archives School'), rhaglen o fentora gan gymheiriaid, rhaglen arweinyddiaeth ddigidol, a lansio'r rhwydwaith Cyfnewidfa Dysgu Archifau Digidol (DALE) – ymhlith rhaglenni eraill. Gall y sector ei hun rannu arbenigedd a sefydlu mentrau cydweithredol newydd gydag academyddion a'r sector technoleg ddinesig.

Nid peth hawdd yw cael rheolaeth ar y systemau a phrosesau busnes sy'n hollbwysig i arfer archifol heddiw, ond dyma'r unig ffordd i ddiogelu cofnodion at y dyfodol. Rhaid i'r sector fynegi ei anghenion yn gliriach nag erioed o'r blaen, a dangos o'r newydd y gellir ymddiried ynddo i ddiogelu'r cofnod digidol yr un mor effeithiol ag y mae wedi diogelu'r cofnod memrwn a phapur ers cymaint o flynyddoedd.

[Gorffennol Digidol 2020](#): Technolegau newydd ym meysydd treftadaeth, dehongli ac estyn-allan
12 & 13 o Chwefror 2020, Canolfan y Celfyddydau Aberystwyth, Aberystwyth

Mae'r ddogfen hon hefyd ar gael yn y Saesneg | This document is also available in English.

Bywgraffiad

Ymunodd Jo Pugh ag Archifau Cenedlaethol Lloegr yn 2007, lle bu'n gweithio ym maes addysg ar-lein cyn gadael yn 2012 i gwblhau doethuriaeth mewn systemau TG cymhleth graddfa-fawr (LSCITS). Dychwelodd i'r Archifau Cenedlaethol yn 2017 ar ôl cael ei benodi'n Rheolwr Datblygu Digidol. Mae'n gyfrifol am systemau megis Manage Your Collections ac ARCHON yn ogystal ag adeiladu gallu digidol yn y sector archifau. Mae'n parhau i ymchwilio i ffyrdd newydd o gyflwyno a chyd-destunoli daliadau archifol ac mae ef wedi gweithio gyda Wikimedia UK, Labordy Hanes Prifysgol Columbia a Phrifysgol New South Wales.